

Pobl a Diwylliant

Cylchlythyr / Rhifyn 1 / Mawrth 2022



Llunio ein
Gweithlu
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Workforce

LLUNIWDYD GAN Y TIMAU GWEITHLU A DATBLYGU SEFYDLIADOL

CROESO

GAN RACHEL GIDMAN, CYFARWYDDWR GWEITHREDOL POBL A DIWYLLIANT

YN Y RHIFYN HWN

- Trosolwg : Cynllun Pobl a Diwylliant
- Thema'r Rhifyn: Gweithlu Ymrwymedig, Brwdfrydig ac Iach
- Caru'r Iaith
- Diweddariad Iechyd a Lles
- Dolenni Allweddol
- Diweddariad ar Dudalen



Croeso i argraffiad cyntaf y Cylchlythyr Pobl a Diwylliant gan eich cydweithwyr yn nhimau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym yn falch iawn o fod yn lle gwyd i hyfforddi, byw a gweithio; ac mae cynhwysiant, lles a datblygu wrth wraidd popeth a wnawn. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth sef 'y dylai siawns rhywun o fyw bywyd iach fod yr un peth, ni waeth pwy ydyw', gwyddom ein bod yn dibynnu arnoch chi, ein pobl.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu cyfraniad, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r Cynllun Pobl a Diwylliant 3 blynedd wedi'i lunio gan ystyried hynny. Yn unol â Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, mae 7 thema sy'n gosod ein diben a'n cyfeiriad, ac yn nodi sut rydym yn mynd i'ch cefnogi o ran eich cyfraniad at y strategaeth 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol'. Ein cyfle ni ydyw i wella eich profiad yn y



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

gwaith, i sicrhau bod gwelliannau diweddar yn gynaliadwy ac i ymateb i'r heriau sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfnod adfer. Dyma ein hymrwymiad i chi.

Yn fy mlog cynharach, ysgrifennais fod ein strategaeth sefydliadol yn llwybr i gyrraedd brig y mynydd - gan oresgyn ein rhwystrau a chyrraedd ein nodau, a bod ein diwylliant yn rhoi'r hwb i ni wneud hynny. Bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi'r cyfle i ni nodi ein cynnydd hyd yma, ac amlinellu'r camau ar gyfer rhan nesaf y daith. Y nod yw rhoi diweddariadau ar fentrau 'llunio ein gweithlu i'r dyfodol' sy'n perthyn i'r cynllun, a sut y byddant yn effeithio arnoch chi a'ch gweithlu, gan sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n sail i'r newidiadau yr ydych o bosib yn eu profi eisoes, neu y byddwch yn eu profi'n fuan wrth i chi ddod i'r gwaith bob dydd. Bydd pob rhifyn yn seiliedig ar un o 7 o themâu'r cynllun - byddant yn fyr ac yn gryno ac yn canolbwyntio ar wraidd y mater...sut y gallwch ddisgwyl cael budd ohono.

Gobeithiwn y bydd y cylchlythyr yn ddiddorol ac yn berthnasol i chi. Wrth i ni anelu at gyflawni ein nodau gyda'n gilydd, mae eich lles a'ch datblygiad yn flaenoriaeth i ni.



Cynllun Pobl a Diwylliant

Mae'r Cynllun hwn yn cyd-fynd â'r Cynllun gweithredol; gan sicrhau dull gweithredu system gyfan, i weithio'n gyflym i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf, a all addasu i newidiadau cyflym I wasanaethau a phwysau'r gweithlu.

Mae'n cyd-fynd â nifer o ddogfennau strategol allweddol. Yn bennaf, ein strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol; y weledigaeth gyffredinol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a nodir yn Cymru Iachach a Strategaeth genedlaethol y Gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol; a Rhaglenni Strategol y BIP yn cynnwys Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol, Llunio ein Hysbytai i'r Dyfodol, Llunio ein Gwasanaethau Cymunedol i'r Dyfodol a Llunio lechyd ein Poblogaeth i'r Dyfodol. Cyfeiriwyd at ddogfennau mewnol eraill wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwr lechyd y Cyhoedd 'Ailddychmygu Heneiddio', sy'n dangos pwysigrwydd gwaith wrth ddarparu pwrpas mewn bywyd i rai pobl hŷn. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'n gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, megis y rhai a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg. Felly, nod y Cynllun yw darparu gweithlu cynhwysol, ymroddedig, cynaliadwy a chyfrifol, a sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Yn ogystal â'r heriau a achoswyd gan y pandemig a'r cyfnod adfer angenrheidiol, rydym ni, ynghyd â'r GIG ehangach yng Nghymru, yn wynebu newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol a demograffig. O ganlyniad i hyn, mae angen l ddemograffeg ein gweithlu newid hefyd, a rhaid inni addasu'r ffordd yr ydym yn recriwtio, cadw a chefnogi ein pobl.

Mae gennym weithlu amrywiol o bron i 16,000 o staff, y maent yn gweithio mewn llawer o wahanol fathau o rolau, ac ynghyd â gwirfoddolwyr, cydweithwyr yn y maes gofal cymdeithasol a gofalwyr, rydym yn cael effaith enfawr ar ein poblogaeth.

Rhaid i ni wybod a deall cynllun ein gweithlu os ydym am fynd ati'n llwyddiannus i fonitro a diwygio cynlluniau sy'n arwain at y gweithlu iawn ar yr deg iawn, er mwyn galluogi a grymuso'r gweithlu l weithio hyd eithaf eu haddysg neu hyfforddiant neu gwmpas eu hymarfer. Mae hyn yn golygu rhyddhau capasiti ar bob lefel bosibl i gyflawni o fewn meysydd

arbenigedd, tra'n parhau i fod yn hyblyg l ymateb i newidiadau wrth iddynt godi.

Er mwyn diwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth yn effeithiol, mae angen i ni sicrhau y gallwn ddarparu ein gwasanaethau yn agosach at y cartref, neu yn y cartref. Dim ond pan nad yw'n bosibl darparu gofal a/neu driniaeth yn ddiogel yn unrhyw le arall y dylai pobl fynd i'r ysbyty. Mae ein cynllun yn gwbl ddibynnol ar weithlu sy'n gweithredu'n greadigol ac yn arloesol i ddarparu iechyd a gofal mewn ffyrdd gwahanol, gan roi'r person wrth galon popeth a wnawn.

Mae'r Cynllun Pobl a Diwylliant yn fap ffordd a fydd yn ein helpu i wella profiad ein pobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gefnogi'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal ymdeithasol i ddarparu dull di-dor, cydlynol gan wahanol ddarparwyr, yn seiliedig ar ganlyniadau sy'n bwysig i'r person. Bydd gofyn i'n gweithlu groesawu ffyrdd newydd o weithio mewn timau, ar draws sefydliadau a sectorau,



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

gyda chymorth technoleg. Bydd cyfleoedd i ddatblygu rolau presennol, adeiladu rolau, sgiliau a galluoedd newydd neu uwch mewn meysydd lle nad ydym wedi gwneud hynny o'r blaen. Drwy weithredu'r Cynllun hwn byddwn yn harneisio'r sgiliau iawn, yn y nifer iawn, ar yr adeg iawn, gan arwain at leihau dyblygu a gwastraff ac osgoi niwed lle bynnag y bo modd. Rydym am i'n gweithlu fod yn hapus, yn iach ac wedi'u cefnogi, fel eu bod nhw, yn eu tro, yn cefnogi lles y bobl sydd yn eu gofal. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithlu yn cael ei drin yn deg a bod pawb yn cael eu cydnabod am y cyfraniad y maent yn ei wneud. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ein poblogaeth amrywiol drwy ddatblygu diwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei groesawu, a thrwy annog ein pobl i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg lle bo angen ac fel rhan o'u bywyd gwaith.

Mae'r Cynllun hwn yn seiliedig ar 7 thema sy'n ymwneud â'r themâu a nodir yn Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda phwyslais ychwanegol ar gadw yn thema 3 i gydnabod pwysigrwydd cadw ein gweithlu yn ogystal â recriwtio pobl newydd.

1. Modelau gweithlu di-dor

cefnogi Gwaith aml-broffesiynol ac amlasiantaethol drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a Gofal Cymdeithasol a datblygu modelau.

2. Gweithlu ymroddedig, llawn cymhelliant ac iach

bod â gweithlu sy'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi lle bynnag y mae'n gweithio.

3. Denu, recriwtio a chadw

recriwtio a chadw'r bobl iawn sydd â'r sgiliau iawn.

4. Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol

bod â gweithlu sy'n barod yn ddigidol, gyda'r dechnoleg sydd ar gael a'r sgiliau i ddefnyddio hyn yn effeithiol.

5. Addysg a dysgu rhagorol

buddsoddi mewn addysg a dysgu i ddarparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl yr ydym yn gofalu amdanynt yn y dyfodol a chefnogi ein pobl i ddatblygu eu gyrfaedd.

6. Arweinyddiaeth ac olyniaeth

bod ag arweinwyr yn y system gofal iechyd sy'n ymgorffori arweinyddiaeth gynhwysol, ar y cyd a thosturiol.

7. Llunio a chyflenwi'r gweithlu

bod â gweithlu cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Gweithlu Ymrwymedig, Brwdfrydig ac Iach

Rydym eisiau gweithlu sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu a'u cefnogi, tra'n cynnal eu hiechyd a'u lles yn y gwaith.

Mae gweithlu ymrwymedig, brwdfrydig ac iach wrth wraidd datblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd sy'n cael yr effaith fwyaf buddiol ar ein cleifion a'n cymunedau. Mae ymchwil yn dangos bod lefelau uwch o ymgysylltu yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar berfformiad sefydliadol, boddhad cleifion a chanlyniadau cleifion. Mae profi pandemig dros gyfnod estynedig o amser, ar ben blaenoriaethau sydd eisoes yn heriol, wedi effeithio'n aruthrol ar forâl, cymhelliant ac iechyd ein gweithlu. Mae angen i bob agenda ganolbwyntio ar ymgysylltu â gweithwyr ac anghenion iechyd a lles, nawr yn fwy nag erioed. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ein staff, Byrddau Clinigol, partneriaid undebau llafur, awdurdodau lleol, y trydydd sector a sefydliadau eraill, i wella profiadau nid yn unig ein gweithlu, ond ein cleifion a'n dinasyddion.



Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu a gweithredu fframwaith ymgysylltu effeithiol
- Creu Strategaeth Lles a chynllun gwybodus a blaengar sydd â chanlyniadau mesuradwy
- Cefnogi diwylliant dysgu drwy ddatblygu dull hyfforddi ac adolygu'r modd y cyflwynir y dysgu
- Ailedrych ar y Gwerthoedd i sicrhau eu bod yn cael eu deall ac yn rhan o bopeth a wnawn e.e. recriwtio yn seiliedig ar werthoedd, arfarniad yn seiliedig ar werthoedd
- Annog cyfranogiad gweithwyr a chreu gwell cyfleoedd ar gyfer adborth sy'n dangos sgysiau cynhwysol dwy ffordd
- Ystyried yr amgylchedd gwaith gan gydnabod effaith amodau gwaith ar les, gan gynnwys agweddau corfforol ac ymddygiadol.
- Parhau i gefnogi ein cyflogeion i wella eu hiechyd eu hunain, a sicrhau bod ganddynt fynediad i'r wybodaeth, gwasanaethau a gweithgareddau iawn.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Ydych chi eisiau gwella'ch sgiliau wrth ddefnyddio rhaglenni Office 365?

Os felly, dewch i ymuno â grŵp Hyfforddiant Office 365 ar Microsoft Teams.

Rhoddir yr hyfforddiant yn fisol, gyda'r sesiynau'n fyr ac yn gyflym, pob un yn para tua 20-30 munud, gydag amser ar gyfer cwestiynau ac atebion. Bydd cyfleoedd hefyd i aelodau'r grŵp gyflwyno ceisiadau am sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

Pan fyddwch yn ymuno â'r grŵp, byddwch yn cael mynediad at y rhwydwaith, y calendr o ddigwyddiadau hyfforddi, recordiadau o sesiynau blaenorol a'r porth i gyflwyno ceisiadau hyfforddi. I ymuno:

1. Agorwch Microsoft Teams a dewis "Teams" o'r bar ochr, ar y chwith.
2. Cliciwch ar "Join or create a team" yng nghornel chwith isaf y sgrin.
3. Yn y blwch "Join a team with a code", rhwch y cod xuq1irl ac yna clicio "Join team".
4. Bydd y tîm nawr yn ymddangos yn eich rhestr o Dimau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr hyfforddiant hwn, cysylltwch â James Gibbons (James.Gibbons@wales.nhs.uk) naill ai trwy Teams neu dros e-bost.

Cariad at yr iaith

Ni fu erioed amser gwell i ddysgu Cymraeg na datblygu eich hyder wrth ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg. Mae dysgu Cymraeg neu wella eich sgiliau Cymraeg yn fuddiol iawn i'ch lles chi a'r cleifion rydych chi'n gofalu amdanynt.

Gall hefyd helpu i wella eich gallu i ddarparu gofal i gleifion. Gall caniatáu iddynt gyfathrebu yn Gymraeg, neu hyd yn oed gydnabod eu dewis iaith, helpu i leihau straen a phryder. Mae llawer o gleifion yn dweud wrthym pa mor bwysig iddynt oedd gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gofal gennym.

Cydnabuwyd y gall dysgu iaith helpu gyda'ch gallu gwybyddol a helpu i leihau straen. Mae meistrolï sgil newydd, yn enwedig un sy'n fwy heriol yn feddyliol ac sy'n gofyn am egni meddyliol fel dysgu ail iaith, yn arwain at fwy o lwyddiant, balchder a lles gwell yn gyffredinol.

Mae ystod amrywiol o sesiynau dysgu yn y dosbarth neu ar-lein ar gael i staff eu mwynhau. Os hoffech chi ddechrau'r daith o ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eich hyder, yna ewch i dudalen SharePoint Dysgu Cymraeg.

"Pe bai'r meddyg yn gallu siarad Cymraeg, byddwn yn gallu teimlo'n eithaf agos ato."

"Roeddwn i mor falch o glywed rhywun yn siarad Cymraeg; fydda i byth yn anghofio hynny."



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Straeon Newyddion Da

Ailsefydlodd Nyrsys Datblygu Proffesiynol ac Ymarfer y Bwrdd Clinigol Meddygaeth (PPDN) ddyddiadau hyfforddi rheolaidd i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn 2021. Mae'r dyddiadau hyfforddi hyn yn ymdrin â phynciau a godwyd gan reolwyr wardiau a materion a amlygwyd ar ffurflenni cofnodi digwyddiad. Ynghyd â'r Tîm Ymyriadau Iechyd, cyflwynwyd sesiwn lles a oedd yn caniatáu lle diogel i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd siarad am eu gyrfaedd, datblygu sefydliadol, myfyrdodau ar eu hymarfer a hunanofal.

Dywed Sam Hughes, PPDN:

"Mae'r tîm HIT wedi bod yn gymorth gwych i'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd mewn Meddygaeth, rydym wedi cael adborth cadarnhaol o'r holl sesiynau maent wedi'u mynychu ac mae'r staff yn gwerthfawrogi cael lle diogel i drafod eu profiadau o amgylchedd y ward".

Mae'r Cydlynnydd Ymyrraeth Iechyd, Stewart Attridge yn awyddus i feysydd eraill groesawu mentrau tebyg, "Mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn ffurfio cyfran fawr o'r gweithlu, maent yn allweddol i foddhad y cleifion a gallant helpu i lenwi rolau yn y sefydliad yn y dyfodol. Maen nhw'n haeddu parch a'r cyfle i drafod eu pryderon". I gael syniad o sut y gall y tîm helpu yn eich maes, cysylltwch ag emily.hughes@wales.nhs.uk

Cynhwysiant

Calendr Cydraddoldeb ar gael nawr!

Datblygwyd y [calendr codi ymwybyddiaeth hwn](#) fel adnodd i staff y BIP ac mae'n dangos ymrwymiad gweladwy i barchu, croesawu a dathlu cymunedau, diwylliannau a chredoau amrywiol. Mae'n cynnig casgliad o ddyddiadau a digwyddiadau allweddol, sy'n adlewyrchu poblogaeth leol amrywiol ein gweithlu, cleifion a'r cyhoedd.

Mae'r calendr wedi'i gynllunio i:

- Helpu staff i ystyried pryd i drefnu apwyntiadau ac ymweliadau cartref ac osgoi gwastraffu apwyntiadau
- Chwalu rhwystrau a meithrin amgylchedd cynhwysol
- Annog lles a Hyrwyddo Gwerthoedd y GIG
- Eich cefnogi i drefnu ymgyrchoedd, digwyddiadau a gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant yn lleol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Diweddariad ar Dudalen

Modelau Gweithlu Di-dor

Cymorth y gweithlu i Ganolfannau Lles a Chymunedol, a'r Rhaglen Adsefydlu sy'n cynnwys chwe ffrwd waith; Cadw Fi'n Iach, Byw'n Dda, Coleg Adfer a Lles, Adsefydlu COVID Hir, Paratoi'n Dda gydag Orthopedeg a Pharatoi'n Dda gyda Chanser.

Denu, Recriwtio a Chadw



Datblygu llwybrau carlam ar gyfer recriwtio i gynorthwyo gyda phwysau ar wasanaethau. Yn ystod Rhagfyr/Ionawr - penodwyd 351 o frechwyr i'r Banc / penodwyd 52 o staff Gweinyddol/staff i'r Ganolfan Trefnu Apwyntiadau i gefnogi'r rhaglen frechu estynedig.

Bydd y Rhifyn Nesaf yn cynnwys.

Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol

Mae lleoedd a ariennir yn llawn/yn rhannol ar gael i ymgymryd â chymhwyster mewn trawsnewid digidol gyda Phrifysgol De Cymru.

Addysg a Dysgu Rhagorol

Hyfforddiant ac Addysg i ddatblygu gwefan Canolfan Ragoriaeth BIP Caerdydd a'r Fro. Mae prosiect lleoliadau rhyng-broffesiynol i fyfyrwyr wedi dechrau gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

Mae 2 x rhaglen reoli yn cael eu cynnal, sy'n cynnwys sesiynau ar werth a lles. Mae cam un y rhwydwaith hyfforddi wedi dechrau darparu hyfforddiant i brif nyrsys y ward a'u dirprwyon.

Llunio a Chyflenwi'r Gweithlu

Mae gwaith gwella ESR yn mynd rhagddo i ddiweddarau sefydliadau'r ward a fydd yn gwella data swyddi gwag y gweithlu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board